y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 48 DYDD GWENER, TACHWEDD 27, 2009 Pris 40c

Gwobrwyo Gweinidog am ei gwaith gyda throseddwyr

Mae gweinidog o'r Wyddgrug wedi derbyn gwobr arbennig am helpu troseddwyr Cymraeg eu hiaith i ail-ymgartrefu yn eu cymunedau.

Cafodd y Barch. Nan Powell-Davies Wobr Cymeradwyaeth Arbennig am fynd ymhell tu hwnt i'r gofyn wrth helpu i integreddio troseddwyr yn ôl i'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg yn noson wobrwyo Gwirfoddoli a Chyfiawnder Cymunedol 2009 yn Llandudno, nos Fawrth, 3 Tachwedd 2009.

Mae'r Gwobrau, sy'n cael eu cynnal gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, yn cydnabod gwaith ac ymroddiad eithriadol gan bobl sy'n gweithio yng ngogledd Cymru i leihau troseddu a gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol.

Y Barchedig Powell-Davies yw cyd-gordiwr BARA, asiantaeth gefnogi ac ailsefydlu sy'n gweithio gyda throseddwyr o ogledd Cymru wedi iddynt gael eu rhyddhau o garchar. Yn weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae hi hefyd yn treulio deuddydd yr wythnos yn gweithio fel caplan yng ngharchar Altcourse, Lerpwl.

Dywedodd Nan, "Dwi'n hynod o falch 'mod i wedi cael y wobr yma achos dwi'n teimlo ei fod o yn anrhydedd i'r eglwys. Gwaith yr eglwys ydi hwn a dwi'n teimlo bod yr eglwys wedi cael ei gweld yn bod ar waith mewn byd sy'n brifo.

"Ond y llawenydd mwyaf i fi ar y noson oedd gweld Matthew Thomas yn ennill gwobr gwirfoddolwyr sy'n gyn-droseddwr. Fuodd o yn Altcourse ac roeddwn i'n gaplan arno fo. 'Dwi'n llawen dros ben fod Matthew wedi gallu newid ei fywyd ac wedi cael y wobr am ei waith gwirfoddol a'i gydweithio efo'r heddlu a phobl ifanc."

Ychwanegodd Ed Beltrami, Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru: "Fel Asiantaethau Cyfiawnder Cymdeithasol, mae'n bwysig amlygu y berthynas effeithiol sydd rhyngom yng Ngogledd Cymru."

"Mae'r gwobrwyon yma'n pwysleisio ein bod yn cymryd camau enfawr mewn ymrwymiadau cyfiawnder troseddol i ddatblygu partneriaethau sy'n dod â'r cyhoedd, y sector breifat a'r sector wirfoddol at ei gilydd. Mae nhw'n glod gwirioneddol i bawb sy'n ymwneud â'r peth."

Mae tua un o bob tri carcharor yng Ngharchar Altcourse, Lerpwl, yn dod yn wreiddiol o ogledd Cymru. Mae BARA yn cefnogi cyn-droseddwyr wrth iddynt geisio ail-ymgartrefu yn eu cymunedau yn ngogledd Cymru, gan gynnig cymorth gyda phroblemau fel canfod llety neu ddelio gyda chamddefnydd alcohol neu gyffuriau eraill, yn ogystal â rhoi anogaeth gyda gwaith, addysg a hamdden. Mae gwirfoddolwyr BARA hefyd yn cefnogi teuluoedd y troseddwyr wrth iddynt ddod i dermau ag absenoldeb gŵr, mab neu dad, ac yna yn eu helpu i addasu wedi iddo gael ei ryddhau. Fe'i noddir yn bennaf gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ymysg eraill.

Gwirfoddolwyr o ardal Caernarfon sy'n gweithio gyda BARA ar hyn o bryd, ond bydd BARA Wrecsam hefyd yn dechrau gweithredu cyn bo hir.

Mari Fflur,
Swyddog Cyfathrebu.

CYMDEITHASFA'R DWYRAIN

Hydref 6ed, Aberystwyth

Cyfarfu'r Gymdeithasfa ar ddiwrnod glawog o Hydref yn Eglwys St. David's, Aberystwyth. Cawsom ein croesawu gan y Parchg Adrian Williams, gweinidog yr eglwys ac ef arweiniodd ein haddoliad ar ddechrau'r dydd.

Arwisgwyd y Parchg Brian Matthews fel yr Ysgrifennydd newydd. Diolchwyd i'r Parchg Tom Phillips am ei waith fel cyn ysgrifennydd cyn ei ethol yn ddarpar Lywydd ar gyfer 2010.

Cyfarfod Busnes y bore

Y Ddogfen Drafod ar Fendithio Partneriaethau Sifil

Y mae'r Gymdeithasfa yn cwestiynu penderfyniad y Gymanfa Gyffredinol i barhau i drafod y pwnc wedi i ddwy o dair talaith y Gymdeithasfa wrthwynebu hyn. Nododd y Parchg Ifan Roberts, yr Ysgrifennydd Cyffredinol mai papur trafod yn unig oedd y ddogfen ac na ofynnwyd i'r Gymdeithasfa bleidleisio yn ffurfiol ar y mater. Felly yr oedd mewn trefn i'r Gymanfa barhau'r drafodaeth. Penderfynodd y Gymdeithasfa anfon neges at Fwrdd y Gymanfa yn gofyn am edrych ar hyn. Y mae angen tanlinellu'r ffaith mai'r Gymdeithasfa yn y tair talaith, yn ôl ein cyfansoddiad, yw llys uchaf ein Cyfundeb, ac nid y Gymanfa Gyffredinol.

Gwasanaeth Ordeinio Gweinidogion

Fel Cymdeithasfa yr ydym am gadw at y gwasanaeth ordeinio hanesyddol sydd wedi ei ddefnyddio, heb fawr o newidiadau, ers bron i 200 mlynedd. Y mae'n well gan y ddwy dalaith arall ddefnyddio'r drefn newydd ac nid ydym yn gwrthwynebu hynny. Argymhellir fod pob talaith o'r Gymdeithasfa yn defnyddio pa ffurf bynnag a ddymunant. Nid oes unrhyw reswm pam na ellir defnyddio dwy drefn wahanol cyn belled ag y bo'r elfen hanfodol – h.y. yr addewidion ac union eiriau'r ordeinio yn cyfateb.

Gweinidogaeth a'r eglwysi

Byddwn yn parhau **gyda'r dreth wastad,** gyda gostyngiad mewn rhai achosion arbennig lle nad yw Henaduriaeth yn gallu darparu gofal bugeiliol..

Ynglŷn â gwerthiant mynwentydd sy'n perthyn i'r eglwysi, nid oes polisi canolog a chaniateir i henaduriaethau eu gwerthu yn ôl eu dymuniad.

Argymhellwyd y dylid caniatáu i weinidogion sy'n gofalu am un eglwys yn unig ostwng y nifer o Suliau a roddir ganddynt ar rota i'r henaduriaeth. Methodd y cynnig, a nodwyd fod y trefniadau presennol yn caniatáu hyblygrwydd. Gall gweinidogion ostwng nifer y Suliau a roddir ganddynt, cyn belled

(parhad ar dudalen 2)

Golygyddol

Eich dewis chwi a neb arall

Efallai bod nifer o ddarllenwyr ffyddlon 'Y Goleuad' yn gwylio y rhaglen X Factor ar y teledu, ac os felly yn gyfarwydd â beth ddigwyddodd yn ddiweddar wrth i un beirniad beidio a gwneud penderfyniad ar enillydd y gystadleuaeth, ond yn hytrach gofyn i'r gynulleidfa enfawr oedd yn gwylio wneud hynny yn ei le. Wnaeth hynny fawr o les i'r beirniad hwnnw na chwaith i boblogrwydd y rhaglen yn ôl y sôn. Fe gofiwn ninnau i Pilat wneud rhywbeth tebyg flynyddoedd yn ôl. Oes yna wers i ni yn y fan yma tybed?

Peidiwch a gadael i ddylanwadau y dyrfa allanol gael effaith ar eich cred gan y byddai hynny'n dangos diffyg hyder yn eich crefydd ac yn gwneud drwg i'r Achos hefyd. Ac mae yna sawl peth yn ceisio dylanwadu arnom, a sawl person hefyd, ac mae sgil effeithiau'r dylanwadau hynny yn amlwg yn nrysau'r capeli sydd wedi cau a distawrwydd ein moliant. Mae'r Nadolig yn nesau'n gyflym ac mae effeithiau a dylanwadau allanol yn gwanhau ystyr a chalon y neges ganolog. Does ond i chwi edrych yn ffenestri'r siopau a cherdded llwybrau llydan yr archfarchnadoedd i weld hynny. Nid ar deledu mae'r 'X Factor' yn amlwg chwaith, ond ar bosteri sy'n cymell rhialtwch a gwaeth yn ystod y dyddiau pwysig yma. Fe sylwais ar boster yn ddiweddar yn hysbysu fod y gwesty arbennig yma yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ystod 'Xmas Time' ac fe sylwch yn y fan i'r 'Christ' gael ei adael allan ac i'r X gymryd ei le. Ychydig a wyddai'r gwesty y byddai'r groes yn cymryd lle y crud, a dyna i chwi X Factor pwysig iawn.

Ond beth bynnag a phwy bynnag fydd yn ceisio dylanwadu ar wir ystyr y Nadolig i chwi, peidiwch a gadael iddynt ddinistrio yr hen, hen hanes a chuddio sglein y Seren. Eich penderfyniad chwi yw beth â wnewch o'r Baban/Frenin yma. Chwi a neb arall sydd i benderfynu a yw am gael aros ar lwyfan bywyd i'r dyfodol, neu gael ei wrthod a'i anghofio. Cofiwch fwrw eich pleidlais o'i blaid ac o wneud hynny pwy a yr na ddaw eraill i uno yng nghân yr angylion.

John Gruffydd Jones.

CYMDEITHASFA'R DWYRAIN (parhad)

ag y bo'r holl eglwysi difugail o fewn yr Henaduriaeth yn derbyn gweinidogaeth ddigonol ar y Sul.

Eglwysi gydag incwm o dros £100,000 y flwyddyn. Mae gofyn iddynt gofrestru gyda'r Comisiynwyr Elusennau fel elusen ar wahân ac i gyflwyno cyfrifon i'r Comisiwn. Bydd gofyn i eglwysi eraill hefyd gofrestru ond ni fydd angen iddynt gyflwyno eu cyfrifon.

Gofalwyr a phobl yn byw mewn tai capel – mae gofyn bellach iddynt dderbyn gwiriad oherwydd deddfwriaeth grwpiau bregus. Hefyd, rhaid i bob eglwys ymateb i Swyddfa Ganolog EBC yn cyflwyno enwau'r ymddiriedolwyr er mwyn iddynt gael eu gwirio. Anfonir taflen am weithio gyda grwpiau bregus i bob eglwys..

O ran gofalwyr – rhaid i'r eglwysi dalu'r isafswm cyflog, hyd yn oed os oes trefniant anffurfiol. Gallai peidio â chydymffurfio gael ei ystyried yn drosedd.

Cynllun y Weinidogaeth Wirfoddol bydd yn caniatáu i weinidogion sydd wedi ymddeol i barhau i weithio yn wirfoddol. Ni chaniateir cytundebau preifat gydag eglwysi. Bydd yn rhaid i unrhyw drefniant gael ei wneud drwy'r Henaduriaeth.

Ystadegydd y Gymdeithasfa – adroddodd ffaith sy'n peri anesmwythid, sef bod hanner yr eglwysi yn gwario mwy na'u hincwm bob blwyddyn. Apelir ar i'r eglwysi ddychwelyd eu ffurflenni ystadegau mewn da bryd. Mae'n gwbl annerbyniol fod y ffurflenni yn cael eu dychwelyd yn hwyr.

Cyfarfod y prynhawn

Wedi gwaith y bore cawsom ginio bwffe ardderchog wedi ei baratoi gan aelodau Eglwys St. David's.

Ar ôl cinio derbyniwyd **cyfarchion** llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd a'r De, a'r Parchg Gwenda Richards, llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Cyflwynwyd **Hanes yr Achos** yn Henaduriaeth Mid Wales and Borders yn gryno iawn gan y Parchg Mary Turnock.

Anerchiad cyn y Cymun – cyflwynwyd hwn ar ffurf myfyrdod ar Ddiwygiad 1859 gan y Parchg Ddr. Eifion Evans. Arweiniwyd y diwygiad yn Sir Aberteifi gan y Parchg Humphrey Jones a'r Parchg Dafydd Morgan. Cafodd gryn effaith ar gymdeithas y cyfnod. Trawsffurfiwyd bywyd llawer o bobl o bob haen o gymdeithas gan waith yr Ysbryd Glân. Gofynnai un gweithiwr fferm syml ac anllythrennog beth oedd wedi digwydd iddo mewn cyfarfod. Ni allai ddweud ond tri gair – ond y fath eiriau! Yr oeddynt yn crynhoi yr hyn yr oedd Duw wedi ei wneud yn ei enaid. Y cyfan a ddywedai oedd "Pechadur – Gwaredwr – Haleliwia!"

Nododd Dr. Eifion Evans dair gwers y gallwn eu dysgu o'r deffroad hwn 150 mlynedd yn ôl – Cofio, Achubiaeth a Diwygiad (Remembrance, Redemption and Revival).

Gyda hyn yn ein meddyliau daethom at Fwrdd yr Arglwydd. Yn ystod y gwasanaeth Cymun cyfarchwyd y Parchg William H. Steed a'r Parchg Bruce Nelmes, y ddau wedi cyflawni 50 mlynedd yn y weinidogaeth, a'r Parchg Edwin G. Davies oedd wedi cyflawni 60 mlynedd o wasanaeth. Yn anffodus nid oedd yn bosibl iddynt fod yn bresennol, ond bydd yr ysgrifennydd yn cyflwyno ein cyfarchion iddynt.

Gweinyddwyd y gwasanaeth Cymun yn syml a gyda pharch gan y Llywydd, y Parchg Iain Hodgins. Wedi i'r Parchg Moon Sook Choi arwain y gwasanaeth i gloi, cawsom baned a mwy o fwyd gan ein gwesteiwyr hael.

Yr oedd y Gymdeithasfa undydd cyntaf hon trwyddi draw yn lwyddiant mawr. Yr oedd yr amserlen dynn yn gymorth i ni ganolbwyntio a'n gwneud yn fwy effeithiol wrth drafod busnes. Eto nid oedd unrhyw ymdeimlad ein bod yn brysio. Yr wyf yn gobeithio mai Cymdeithasfa undydd fydd y norm i'r dyfodol, pan fo hynny'n bosibl.

Y Parchg David Jenkins.
Cyfieithwyd gan
Y Barchg Catrin Roberts, Caerdydd.

Eglwysi Gogledd Cymru: Siom ynglŷn ag Urdd ac alcohol

Mae Cymdeithasfa'r Gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi mynegi siom a phryder at y bwriad i werthu alcohol ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Barn bendant y Gymdeithasfa, sy'n cynrychioli holl eglwysi Cymraeg yr enwad yng ngogledd Cymru, yw fod i'r bwriad ei beryglon, gan mai gŵyl i blant ac ieuenctid yw Eisteddfod yr Urdd.

Penderfynodd y Gymdeithasfa yn Sasiwn yr Hydref ym Mhorthmadog i ysgrifennu at Gyngor yr Urdd "yn mynegi ein siom, ein pryderon a'n gwrthwynebiad" i'r hyn a arfaethir. Penderfynwyd hefyd i annog cynghorwyr Cyngor Sir Ceredigion i wrthod unrhyw gais am drwydded i werthu alcohol yn Eisteddfod yr Urdd 2010.

"Mae'r holl syniad o geisio parchuso alcohol yn wrthun gan fod i or-yfed beryglon andwyol," meddai'r Barchedig Megan Williams, llywydd y Gymdeithasfa.

"Yn wir, mae effeithiau niweidiol gorddefnydd alcohol yn fwy amlwg ar y strydoedd hyd yn oed na pheryglon camddefnydd o rai cyffuriau eraill.

"Rhaid cofio hefyd mai plant a phobl ifanc yw aelodau'r Urdd. Dros y blynyddoedd rydan ni fel Cymry wedi bod yn gefnogol iawn i'r Urdd, ond ofnwn os eir ymlaen â'r bwriad i ddod ag alcohol faes yr Eisteddfod y bydd yn colli ewyllys da llawer iawn o bobl."

Mynegwyd consyrn yng Nghymdeithasfa'r Gogledd hefyd fod archfarchnadoedd yn gwerthu alcohol yn rhad y gall hynny arwain at or-yfed ymysg yr ifanc.

Penderfynwyd pwyso ar Andy Burnham, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn San Steffan, ac Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yng Nghymru, am fesur i sefydlogi prisiau alcohol i arbed hynny.